OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 725

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## RHAN 3

## Lleihau'r risg dod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd agored ac wrth weithio

### Mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws

**12.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am—

(a) mangre agored, neu

(b) gwaith a wneir mewn unrhyw fangre arall lle y mae person yn gweithio.

(2) At ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre, rhaid i'r person—

(a) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(i) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr);

(ii) pan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i'r fangre, fod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),

(b) cymryd unrhyw fesurau rhesymol eraill at y diben hwnnw, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac sy'n cynnal hylendid megis—

(i) newid trefn y fangre gan gynnwys lleoliad y dodrefn a'r gweithfannau;

(ii) rheoli'r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau;

(iii) rheoli'r defnydd o gyfleusterau a rennir megis toiledau a cheginau;

(iv) fel arall rheoli'r defnydd o unrhyw ran arall o'r fangre neu fynediad iddi;

(v) gosod rhwystrau neu sgriniau;

(vi) darparu, neu'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio, cyfarpar diogelu personol, ac

(c) darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n dod i mewn neu'n gweithio yn y fangre ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "mangre agored" yw—

(a) mangre busnes neu wasanaeth a restrir yn Atodlen 4;

(b) addoldai;

(c) mynwentydd;

(d) mangre busnes a restrir yn Atodlen 1 nad yw'n ofynnol iddit gau yn unol â rheoliad 6;

(e) mangre busnes a restrir yn Atodlen 2 y caniateir iddi fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 7(2);

(f) mangre busnes a restrir yn Atodlen 3 y caniateir iddi fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 8(2) neu (3);

(g) amlosgfeydd y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 10(2);

(h) canolfannau cymunedol y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 10(4).

(4) At ddibenion y rheoliad hwn mae "mangre" hefyd yn cynnwys cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, rheilffyrdd, tramffordd, awyr neu fôr .

**Canllawiau ar leihau dod i gysylltiad â'r coronafeirws**

**13.**—(1) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo gymryd mesurau rhesymol o dan reoliad 12 roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y mesurau hynny.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1), a

(b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).

(3) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy'n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).